# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 21 Medi i 5 Hydref 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

4 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

4 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

5 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

8 Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

8 Cwestiynau i'r Llywodraeth Leol a Thai

8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

### Banc Barclays (Cau Canghennau)

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw drafodaethau â chynrychiolwyr Banc Barclays ynglŷn ag effaith cau canghennau ar gymunedau gwledig? (WAQ5190)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Ar 7 Ebrill, cyhoeddodd Barclays ei fod yn cau 200 o'i 1700 o ganghennau ar draws y DU (11.08 y cant), gan gynnwys 10 o'i 142 o ganghennau yng Nghymru (7.0 y cant), yn Abercynon, Dowlais, Cricieth, Harlech, Llanelwy, Blaenau Ffestiniog, Saundersfoot, Gwaun Cae Gurwen, Cwm Ogwr a Chasnewydd (Handpost). Cafwyd llawer o feirniadaeth gan y rheini sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig ac Aelodau'r Cynulliad am gau'r canghennau hyn.

Cyfarfûm â Leighton Carnell, Cyfarwyddwr Corfforaethol Rhanbarthol Banc Barclays yng Nghymru ar 7 Gorffennaf, i drafod y mater hwn. Dywedodd Mr Carnell y gallai ddeall sut yr oedd pobl yn teimlo yn y cymunedau yr oedd cau canghennau yn effeithio arnynt, ond bod y canghennau'n cael eu cau gan nad oedd cwsmeriaid yn defnyddio digon arnynt. Gwrthbrofodd hefyd y syniad nad oedd gan Barclays unrhyw ymrwymiad i Gymru, gan ddyfynnu, fel enghraifft, y £1.9 miliwn a roddodd i brosiectau cymunedol y llynedd. Dywedodd fod Barclays yn meddu ar 30 y cant o'r holl fusnes bancio yng Nghymru, a bod ganddo bresenoldeb arbennig o gryf yn y sector amaethyddiaeth gyda 45 y cant o gyfran y farchnad. Codais y syniad am a oedd swyddfeydd post, yn gweithredu fel blaen siop ar gyfer amrywiol fusnesau mewn cymunedau bach, yn ymarferol. Dywedodd Mr Carnell y credai y gellid gwneud iddo weithio, ac y gallai hyn liniaru llawer ar y problemau y mae'r rheini sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig yn eu hwynebu.

Er bod cau'r canghennau'n resyn i'r banc, penderfyniad masnachol ganddo ydoedd. Dywedodd Barclays fod hyn yn ffurfio rhan o waith mwy i ad-drefnu ffocws y grŵp, a thra bod y grŵp wedi cau nifer o'i fanciau, mae yn cynllunio rhaglen fuddsoddi ar gyfer y canghennau sydd yn weddill, ynghyd â dulliau eraill o wasanaethu cwsmeriaid, megis bancio dros y rhyngrwyd a'r ffôn. Dylai hyn alluogi cwsmeriaid sydd yn byw'n bell i ddal i gael gafael ar wasanaethau'r banc.

Byddaf yn parhau i fonitro'r sefyllfa bresennol yn agos, gan gynnwys cynnig argymelledig Barclays am Woolwich, yn enwedig o safbwynt unrhyw oblygiadau y gallai ei gael ar Gymru.

### Trafodaethau ar Arian Cyfatebol ar gyfer Cynlluniau Blaenoriaeth 5 o dan Amcan 1

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cynnal gyda Changhellor y Trysorlys i ddod o hyd i arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau Blaenoriaeth 5 (Datblygu Gwledig) o dan Amcan 1? (WAQ5766)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ymddiheuraf am fod cyhyd yn ateb y cwestiwn hwn. Cyn cyhoeddiad yr adolygiad o wariant cefais sawl trafodaeth gyda'r Canghellor am oblygiadau ariannol holl raglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Mae canlyniad yr adolygiad o wariant bellach yn hysbys a bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn ystyried yr arian cyfatebol ar gyfer holl raglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ar draws holl sbectrwm busnes y Cynulliad, fel rhan o gylch cynllunio cyfredol y gyllideb.

### Arian Cyfatebol ar gyfer Cynlluniau Blaenoriaeth 5 o dan Amcan 1

**Peter Black:** Pa ffynonellau o arian cyfatebol y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi dod o hyd iddynt ar gyfer cynlluniau Blaenoriaeth 5 (Datblygu Gwledig) o dan Amcan 1? (WAQ5768)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ymddiheuraf am fod cyhyd yn ateb y cwestiwn hwn. Fel rhan o broses cynllunio cyllideb y Cynulliad sydd yn mynd rhagddi ar hyn o bryd, bydd y gofynion am arian cyfatebol ar gyfer holl raglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ar draws holl sbectrwm busnes y Cynulliad, yn cael ei ystyried yn ofalus iawn.

### Trafodaethau gyda Corus (Ailfuddsoddi yn Llanwern)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi adroddiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cael yn ddiweddar gyda Corus mewn perthynas ag ailfuddsoddi yn Llanwern? (WAQ6746)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bûm i, fy nghyd-aelodau yn y Cabinet a swyddogion mewn cysylltiad mynych gyda Corus a'r undebau dur cyn y cyhoeddiad bod y cwmni yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ail-leinio ffwrnais chwyth rhif tri yn Llanwern ond yn amodol ar adolygiad busnes parhaus.

### Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (Cymorth Technegol)

**Alun Cairns:** Pa gymorth technegol sydd wedi ei neilltuo yn benodol er budd y sector preifat pan fyddant yn gwneud cais am gronfeydd strwythurol Ewropeaidd? (WAQ6750)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd pwyllgor monitro rhaglenni Amcan 1 yn pwyso a mesur cynigion ar gyfer strategaeth i ddyrannu cymorth technegol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

### Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Sylwadau i'r Prif Ysgrifennydd)

**Alun Cairns:** Pa sylwadau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu derbyn gan Gyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Ffederasiwn y Busnesau Bach a sefydliadau eraill sydd yn cynrychioli busnesau mewn perthynas â'r dull y mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cael ei rhedeg a'i thrafod? (WAQ6751)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf wedi derbyn llawer o sylwadau gan sefydliadau busnes am y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ond cyn belled ag yr wyf fi'n ymwybodol nid oes yr un ohonynt wedi ymdrin yn benodol gyda'r modd y rhedir Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

### Cais Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (Defnyddio'r Cynllun Benthyciadau Busnesau Bach fel Arian Cyfatebol)

**Alun Cairns:** A oes modd defnyddio'r cynllun benthyciadau busnesau bach fel arian cyfatebol mewn perthynas â chais o dan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd? (WAQ6752)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nac oes. Disgwylir mai cyllid o'r sector preifat a ddefnyddir fel arian cyfatebol ar gyfer arian o'r Gronfa Datblygu Rhanbarthau Ewropeaidd ar gyfer y cynllun benthyciadau busnesau bach yn ardal Amcan 1.

### Cais Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (Gwybodaeth i'r Sector Preifat)

**Alun Cairns:** Pa lenyddiaeth sydd wedi cael ei chyhoeddi ac ynddi wybodaeth fanwl i'r sector preifat, sydd yn esbonio sut y mae gwneud cais am arian o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd? (WAQ6753)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Hyd yma, ni chyhoeddwyd unrhyw lenyddiaeth ar gyfer y rhaglenni newydd yn 2000-06 i'r sector preifat. Un o dasgau cyntaf pennaeth newydd yr Uned Sector Preifat, Helen Usher, fydd paratoi gwybodaeth fanwl i'w chyhoeddi ar gyfer y sector preifat yn esbonio sut i wneud cais am arian o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

### Cais Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (Cyngor i Sefydliadau)

**Alun Cairns:** Pa gyngor sydd ar gael i sefydliadau sydd yn dymuno gwneud cais am arian o'r gronfa strwythurol? (WAQ6754)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae nifer dda a chynyddol yn defnyddio gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar www.wefo.wales.gov.uk fel ffynhonnell wybodaeth ar gyfer darpar ymgeiswyr i'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Ceir ynddi rifau ffôn cyswllt ar gyfer amrywiol gronfeydd yn ogystal ag ar gyfer y partneriaethau lleol a rhanbarthol, ynghyd â chanllawiau a fersiynau drafft o'r ffurflenni cais i'w defnyddio. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn bwriadu sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar y wefan ac mae hefyd ar gael yn y Gymraeg pryd bynnag y gellir darparu hynny. I'r ymgeiswyr hynny na allant fanteisio ar y wefan, gellir cael copïau caled o unrhyw wybodaeth sydd ar gael ar y wefan un ai drwy ffonio Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru neu drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost ar gyfer ymholiadau. Mae'r cyfeiriad e-bost ar gyfer ymholiadau hefyd ar gael os oes gennych ymholiadau cyffredinol ar enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk

### Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Uned Sector Preifat o fewn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**Alun Cairns:** Pryd mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r uned sector preifat o fewn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru? (WAQ6755)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Helen Usher, pennaeth yr uned, wedi dechrau yn ei swydd yr wythnos hon a'i thasgau cyntaf fydd diffinio swyddogaeth yr uned a recriwtio staff addas.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Economaidd

### Cnydau a Addaswyd yn Enetig ar Dir Cymru

**Nick Bourne:** A oes unrhyw gynigion ar waith i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar dreialon cnydau a addaswyd yn enetig ar dir Cymru ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo modd? (WAQ5191)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Economaidd (Carwyn Jones):** Bydd canlyniadau'r treialon ar gnydau a addaswyd yn enetig yn cael eu cyhoeddi ar y cyd â Llywodraeth y DU cyn gynted ag y byddant ar gael.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

### Cyrff Cyhoeddus a Noddwyd gan y Cynulliad (Penodiadau)

**Nick Bourne:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cyllid roi manylion o ba gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru sydd â pholisi o rwystro pobl sydd yn datgan eu bod yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth rhag cael eu penodi a pha rai nad ydynt yn gweithredu'r polisi hwn, ac a oes bwriad ganddi i ystyried cael pob un ohonynt i fabwysiadu polisi unffurf? (WAQ6756)

**Nick Bourne:** A yw'r polisi presennol ynghylch cyflogaeth/ymgynghoriaeth o fewn cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru yn rhwystro pobl sydd yn datgan eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol rhag cael eu penodi ac a wnaiff hi amlinellu'r rhesymau dros y polisi hwn? (WAQ6757)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Y Cynulliad sydd yn penodi unigolion i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Dynoda'r canllawiau 'na ddylai gweithgaredd, cysylltiad na chydbwysedd gwleidyddol fod yn faen prawf ar gyfer penodi ac eithrio os ceir gofynion statudol neu, yn yr ychydig achosion, os bydd natur y corff cyhoeddus yn golygu ei bod yn bwysig bod pleidiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli arno'.

Gofynnir i'r holl ymgeiswyr ateb cwestiwn am weithgaredd gwleidyddol ar eu ffurflen gais. Rhydd y cwestiwn gyfle i'r ymgeiswyr ddangos sgiliau a phrofiad a allai fod yn ddefnyddiol yn y penodiad yr ymgeisiant amdano. Ni fydd y ffaith eu bod yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, fel arfer, yn rhwystro person rhag cael ei ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwella Safon Ystadegau Iechyd

**Glyn Davies:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y tri mis diwethaf i wella ansawdd ystadegau iechyd? (WAQ6540)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae llawer o'r data ar iechyd a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn deillio o systemau gweinyddol yr NHS. Mae ansawdd y data yn dibynnu ar fod ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yn casglu'r data yn gywir yn unol â diffiniadau a chanllawiau canolog. Cymerwyd nifer o gamau yn ddiweddar, neu mae nifer yn yr arfaeth, camau a ddylai arwain at welliant amlwg dros amser. Ymhlith y rhain y mae:

- Cyhoeddwyd y data llinell sylfaen ar gyfer Fframwaith Rheoli Perfformiad NHS Cymru ym mis Gorffennaf 2000. Dylai gwaith i ymchwilio i'r amrywiadau yng ngwerthoedd dangosyddion ar lefel awdurdodau iechyd ac yn is arwain at welliannau yng nghysondeb a chymharedd y data.

- Ym mis Awst 2000 sefydlwyd tîm safonau ac ansawdd data yn Atebion Iechyd Cymru i weithio gyda sefydliadau i wella'r graddau y maent yn cydymffurfio gyda safonau a diffiniadau canolog. Yn arbennig, bu'r tîm yn ymchwilio i drefniadau cofnodi achosion dydd ymddiriedolaethau unigol a bydd yn gweithio gyda nhw, a'r Cynulliad, i wella cysondeb y cofnodi ar draws Cymru.

- Cyflwynwyd rhaglen ansawdd gwybodaeth. Fel cam cyntaf, mae'n ofynnol i bob ymddiriedolaeth yng Nghymru gwblhau adolygiad rhestr atgoffa erbyn diwedd Rhagfyr 2000, er mwyn canfod i ba raddau y mae'r ymddiriedolaethau yn glynu wrth arfer da yn eu prosesau trin data. Cynhelir archwiliad allanol ar y rhain. Ymhlith elfennau eraill y rhaglen y mae adolygiad o ofynion gwybodaeth, llunio canllawiau arfer da a phroses o achredu cofnodion iechyd.

- Datblygwyd dangosydd ansawdd data i helpu i asesu ansawdd cronfa ddata episodau cleifion a ddelir yn ganolog i Gymru, sef prif ffynhonnell gweithgaredd achosion dydd a chleifion mewnol ysbytai.

### Cyfleusterau Meddygol Preifat a ddefnyddir gan Awdurdodau Iechyd yng Nghymru

**Alun Cairns:** Pa amcangyfrif y mae Jane Hutt wedi ei wneud o helaethrwydd y defnydd sydd yn cael ei wneud o gyfleusterau meddygol preifat gan awdurdodau iechyd yng Nghymru? (WAQ 6749)

**Jane Hutt:** Ni chesglir yr wybodaeth hon yn ganolog. Mae awdurdodau iechyd yn rhydd i ddefnyddio gwasanaethau mewn cyfleusterau sydd yn eiddo i'r NHS a'r tu allan i'w hardal ac yn y sector preifat a'r sector annibynnol os bydd hyn er budd eu cleifion ac os bydd y gwasanaethau'n bodloni'r safonau ansawdd priodol.

### Sgrinio am Ganser y Fron

**David Davies:** Ai polisi Jane Hutt yw rhoi cyfarwyddiadau i awdurdodau iechyd sydd yn cynnig sgrinio am ganser y fron yn amlach nag unwaith bob tair blynedd, newid i drefn o sgrinio unwaith bob tair blynedd? (WAQ6782)

**Jane Hutt:** Bron Brawf Cymru sydd yn cynnal y rhaglen sgrinio am ganser y fron i'r NHS, rhaglen a sefydlwyd gan y Llywodraeth a'r Swyddfa Gymreig gynt. Mae'r rhaglen yn sgrinio menywod sydd rhwng 50 a 64 mlwydd oed am ganser y fron bob tair blynedd fel mater o drefn, tra gall y rheini sydd dros 64 gyfeirio'u hunain. O'r herwydd, nid oes gan awdurdodau iechyd unrhyw swyddogaeth yn y gwaith o bennu'r meini prawf ar gyfer y rhaglen.

Ar 27 Gorffennaf, cyhoeddais fy mod wedi gofyn i Bron Brawf Cymru ddechrau sefydlu'r gweithwyr a'r adnoddau er mwyn gallu cyflwyno, o'r flwyddyn nesaf ymlaen, mamograffeg dau welediad ar gyfer yr holl sgriniau a gymerir fel rhan o'r rhaglen. Ar ôl cyflawni hyn, yr wyf hefyd wedi gofyn i Bron Brawf Cymru ymestyn yr ystod oedran ar gyfer y menywod hynny sydd yn cael gwahoddiad i fynd i gael eu sgrinio'n rheolaidd i 70 mlwydd oed.

I'r menywod hynny sydd y tu allan i'r rhaglen, neu'r rheini sydd oddi mewn i'r rhaglen ac y bernir eu bod yn y categori risg uchel, angen clinigol sydd yn pennu a oes gofyn sgrinio y tu allan i'r drefn arferol. Mater i awdurdodau iechyd, clinigwyr ac ymddiriedolaethau'r NHS, felly, yw asesu'r cyfnod arferol rhwng apwyntiadau mewn achosion o sgrinio y tu allan i'r drefn arferol.

### Cynyddu Nifer yr Ymgeiswyr am Gymwysterau Nyrsio

**David Davies:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar gynlluniau diweddar i gynyddu nifer yr ymgeiswyr am gymwysterau nyrsio ac i annog nyrsys i ddychwelyd i'r sector cyhoeddus? (WAQ6784)

**Jane Hutt:** Mae addysg nyrsio cyn-cofrestru yn ddewis poblogaidd o blith yr hyfforddiant galwedigaethol a gynigir yng Nghymru ac mae nifer y myfyrwyr sydd yn ymgeisio am gyrsiau o'r fath yn rhagori ar nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae'r Adran Iechyd wedi cynnal ymgyrch recriwtio i ddenu ymgeiswyr i leoedd ar y cwrs nyrsio cyn-cofrestru yn Lloegr. Ni fu ymgyrch debyg yn ofynnol yng Nghymru gan nad oes unrhyw broblemau gyda chyrsiau hyfforddi nyrsys yng Nghymru. Fodd bynnag, mae peth o'r cynnydd yn y gwariant ar wasanaethau iechyd wedi mynd tuag at gynyddu'r nifer sydd yn dilyn hyfforddiant nyrsio 15 y cant. Yn ogystal, mae'r Cynulliad yn annog nyrsys i ddychwelyd i'r sector cyhoeddus drwy noddi cyrsiau dychwelyd i ymarfer mewn gwahanol leoliadau ar draws Cymru.

### Cydnabod Anafiadau Trawmatig i'r Ymennydd mewn Cynlluniau Gofal Cymunedol

**David Davies:** A fydd Jane Hutt yn gofyn i awdurdodau lleol gydnabod anafiadau trawmatig i'r ymennydd o fewn eu cynlluniau gofal cymunedol? (WAQ6786)

**Jane Hutt:** Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990, gynhyrchu cynlluniau gofal cymdeithasol mewn ymgynghoriad ag awdurdodau iechyd, awdurdodau tai, mudiadau gwirfoddol sydd yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr a chynhalwyr, cyrff tai gwirfoddol a chyrff eraill sydd yn ymddangos i'r awdurdodau lleol eu bod yn darparu gwasanaethau tai neu ofal yn y gymuned. Penderfynir ar gynnwys y cynlluniau hyn ar lefel leol. Yng nghyd-destun eang cynllun gofal cymdeithasol pob awdurdod lleol, ymdrinnir ag asesiad a gofal unigolion gartref fesul achos.

### Adroddiad Prifysgol Warwick

**David Davies:** Pryd y mae Jane Hutt yn disgwyl ymateb i ganfyddiadau adroddiad Prifysgol Warwick ar reoli anafiadau trawmatig i'r ymennydd ac a wnaiff ddatganiad ar hynny? (WAQ6787)

**Jane Hutt:** Yr oedd yr adroddiad gan Brifysgol Warwick yn 1998 yn gyfraniad gwerthfawr i'r ddadl am y driniaeth orau ar gyfer anafiadau i'r pen. Bwydodd i'r gwaith yng Nghymru a gychwynnwyd gan adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar adfer anafiadau difrifol i'r pen yn 1995. Bu i Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr yr awdurdodau iechyd sefydlu grŵp llywio i bwyso a mesur a bwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor. Cyhoeddwyd eu hadroddiad, 'A Head Start' yn 1997 ond parhaodd y grŵp llywio er mwyn pwyso a mesur nifer o gamau yr oedd yn rhaid eu cymryd drwy Gymru-gyfan. Chwalodd

y grŵp yn 1999 ar y sail y byddai'r gwaith ar wella gwasanaethau yn parhau i gael ei fwrw yn ei flaen gan yr awdurdodau iechyd.

### Trin a Rheoli Anafiadau Trawmatig i'r Ymennydd

**David Davies:** Pa dystiolaeth ymchwil, ar wahân i'r hyn a gynhaliwyd gan Brifysgol Warwick, sydd wedi ei cynorthwyo Jane Hutt i ddatblygu polisi mewn perthynas â thrin a rheoli anafiadau trawmatig i'r ymennydd? (WAQ6788)

**Jane Hutt:** Ceir cyfoeth o dystiolaeth ymchwil ar y pwnc hwn ac mae i'w gweld mewn adroddiadau a gwaith ymchwil i nifer o bynciau eraill, er enghraifft adfer. Ein prif swyddogaeth yw gweithredu fel hwylusydd fel bod y gwasanaethau priodol yn gweld canlyniadau'r ymchwil. Cefais y pleser o fod yn bresennol yn ddiweddar yn lansiad llyfryn gwybodaeth Cymru-gyfan a noddwyd gan y Cynulliad am anafiadau a geir i'r ymennydd. Cyhoeddwyd y ffynhonnell wybodaeth ardderchog hon yn sgîl cydweithrediad rhwng yr Adran Niwroseiciatreg academaidd yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, yr Adran Addysg Meddygaeth Deuluol i Raddedigion yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a Headway Caerdydd.

### Camau i Gynyddu Nifer yr Organau sydd ar gael i'w Trawsblannu

**David Davies:** A wnaiff Jane Hutt wneud datganiad ar y camau a gymerir i gynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu? (WAQ6789)

**Jane Hutt:** Fis Gorffennaf eleni, bu i'r Cynulliad Cenedlaethol helpu i ariannu National Transplant yn ystod Wythnos Mind; nod y sefydliad hwn yw annog unigolion i roi organau a chynyddu ymwybyddiaeth o drawsblannu. Y llynedd, bu i ni lansio ymgyrch rhoi organau ar y cyd â Sefydliad Uned Ymchwil Arennau Cymru; cafodd yr ymgyrch hon sylw a chefnogaeth eang gan y cyfryngau. Y nod oedd darbwyllo pobl i fynegi eu parodrwydd i fod yn rhoddwyr organau/ meinwe pe byddent farw. Byddwn yn parhau i weithio gyda Sefydliad Uned Ymchwil Arennau Cymru i annog unigolion i roi organau a chynyddu nifer y rhoddwyr.

### Asesiad o Gynnig i Sefydlu Gwasanaethau Trawsblannu

**David Davies:** Pa asesiad y mae Jane Hutt wedi'i wneud o'r cynnig diweddar gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon a Chymdeithas Feddygol Prydain (a) i sefydlu gwasanaeth trawsblannu cenedlaethol, (b) i sicrhau strategaeth genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau trawsblannu ac (c) i werthuso a monitro safonau? (WAQ6790)

**Jane Hutt:** Nid yw gweinyddiaethau iechyd y DU eisiau gweld gwasanaethau trawsblannu yn cael eu gwahanu oddi wrth NHS y brif ffrwd fel a gynigir gan Gymdeithas Feddygol Prydain yn y model gwasanaethau trawsblannu cenedlaethol (yn seiliedig ar adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon). Cyhoeddwyd cynllun gweinyddiaethau iechyd y DU ar gyfer moderneiddio'r gwasanaethau trawsblannu ym mis Chwefror eleni, ac ymhlith y cynigion y mae:

- Bydd gan UK Transplant (awdurdod iechyd arbennig sydd yn darparu swyddogaeth cefnogi i wasanaethau trawsblannu) yn chwarae rôl ragweithiol i wella'r cyfraddau caffael organau drwy'r NHS a bydd ganddo swyddogaeth ganoli a chefnogi i gydlynu trawsblaniadau
- Bydd yn golygu gweithio gyda Choleg Brenhinol y Llawfeddygon a chyrff proffesiynol eraill i sicrhau bod staff addas yn yr holl unedau trawsblannu i gyflwyno gwasanaeth o safon
- Cynyddu effeithiolrwydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd
- Bydd yr holl wasanaethau trawsblannu yn cael eu comisiynu yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae hyn yn unol ag adroddiad ac argymhellion Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ar drawsblaniadau arennol, y cytunwyd arnynt yn ddiweddar.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

### Cyfraniad Ffermydd Gwynt i System Ynni yng Nghymru

**Nick Bourne:** A wnaed asesiad o gyfraniad ffermydd gwynt i'r system ynni yng Nghymru ac a wnaiff Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth gyhoeddi'r asesiad? (WAQ6325)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex):** Dengys ffigurau rhwymedigaeth tanwydd anffosiledig yn ystod blwyddyn ariannol 1999-2000, o gyfanswm bras o 279 GWh o drydan a gynhyrchwyd o brosiectau rhwymedigaeth tanwydd anffosiledig yng Nghymru, y cynhyrchwyd 185 GWh (66 y cant) ohono o ynni'r gwynt.

### Lleoli Mastiau Ffonau Symudol yng Nghymru

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Sue Essex wedi'u cael yn ddiweddar â'r cwmnïau ffôn symudol ynghylch eu polisi ar leoli mastiau ffonau symudol yng Nghymru, ac a wnaiff wneud datganiad? (WAQ6758)

**Sue Essex:** Ar 10 Awst, cyfarfu fy swyddogion gyda chynrychiolwyr o Ffederasiwn y Diwydiant Electroneg a'r cwmnïau ffôn symudol i drafod ymarfer a pholisi'r cwmnïau yng nghyswllt lleoliadau arfaethedig mastiau, ymestyn rhwydweithiau a datblygiadau i'r dyfodol ym maes telathrebu.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai

### Cronfeydd i Leihau'r Llwyth Gwaith Adnewyddu Tai sydd wedi Cronni

**Nick Bourne:** Pa gronfeydd sydd wedi eu neilltuo i alluogi cynghorau Cymru i leihau'r llwyth o waith adnewyddu tai sydd wedi cronni ar gyfer bob blwyddyn ers 1997? (WAQ6759)

**Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai (Peter Law):** Yr adnoddau a oedd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer tai yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys gwaith adnewyddu, ym mlynyddoedd 1997-98, 1998-99, 1999-2000 a 2000-01 oedd £225 miliwn, £216 miliwn, £201 miliwn a £194 miliwn, yn y drefn honno. Hefyd, gallai awdurdodau lleol ddefnyddio adnoddau eraill a oedd ar gael o'u cyllid cyffredinol i gefnogi gwaith adnewyddu tai.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Cylchlythyrau

**Nick Bourne:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant restru'r cylchlythyrau sydd wedi cael eu hanfon gan ei Hadran i (a) ysgolion cynradd, a (b) ysgolion uwchradd yn ystod y llynedd, a faint o dudalennau oedd ymhob dogfen? (WAQ6760)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Ers mis Medi 1999, anfonwyd y cylchlythyrau canlynol gan fy adran i ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd:

| Cyf y Cylchlythyr | Teitl | Nifer y tudalennau |
|---|---|---|
| 2/99 | Iechyd a Diogelwch disgyblion ar ymweliadau addysgol : Arweiniad i ymarfer da | 138 |
| 3/99 | Cefnogi disgyblion a chynhwysiant cymdeithasol | 152 |
| 12/99 | Arweiniad ar Reoliadau llywodraethu Ysgolion diwygiedig ar gyfer holl Gyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir | 42 |

Dosbarthwyd y cylchlythyrau canlynol i ysgolion uwchradd yn unig:


| | | |
|---|---|---|
| 4/99 | Deddf Addysg 1996 : Gwybodaeth am berfformiad colegau ac ysgolion uwchradd 1999 | 30 |
| 18/00 | Deddf Addysg 1996 : Cymeradwyo cymwysterau'n statudol dan Adran 400 | 84 |


Mae'r holl gylchlythyrau hyn yn ddwyieithog.